# CYD-BWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Mehefin 2019** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro / Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Teitl:** | **Cytundeb Cyfreithiol diwygiedig y Cyd-bwyllgor** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cytundeb Cyfreithiol Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Argymell diwygiadau i'r Aelodau o ran adolygu Cytundeb Cyfreithiol y Cyd-bwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r diwygiadau yn y Cytundeb Cyfreithiol ac yn argymell bod y tri Chyngor sy'n bartneriaid yn eu mabwysiadu.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Cyflwynwyd y Cytundeb Cyfreithiol presennol i'r Cyd-bwyllgor yn y cyfarfod diwethaf, a hysbyswyd yr aelodau ei bod yn arfer da i adolygu cytundebau o bryd i'w gilydd, fel sy'n gyffredin yn nhelerau'r rhan helaeth o gytundebau. Mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu Cytundeb y Cyd-bwyllgor, ac felly mae'r adeg wedi dod i'w adolygu.

Ceir copi o'r Cytundeb presennol yn Atodiad 1 er gwybodaeth, a chopi o'r Weithred Diwygio arfaethedig yn Atodiad 2.

Y prif newidiadau yw:

- Gwella'r derminoleg a'r geiriad yn yr adran Dehongli
- Cadarnhau Cymal 11 o ran cytuno i gyfnod arall o bum mlynedd
- Diwygio Cymal 19 yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
- Rheolau Sefydlog a'r gallu i anfon dirprwyon
- Diagram newydd yn Atodiad 3
- Newid y geiriad yn Atodiad 5 o 'Cynhadledd' i 'Fforwm'
- Atodiad 7 – diwygio'r gyllideb
- Atodiad 8 – diwygio rhestr aelodau'r tîm craidd.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Y Cytundeb Cyfreithiol yw conglfaen gwaith y Cyd-bwyllgor, Partneriaeth yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'i swyddogion wrth gyflawni'r Cynllun Rheoli. Mae'n rhoi fframwaith ar gyfer meithrin cyswllt â rhanddeiliad yr AHNE.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth ddiwygio'r Cytundeb hwn nac yn sgil effaith y cyfryw ddiwygiadau; mae'r cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r gyllideb bob blwyddyn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Asesiad Lles gan Gyngor Sir Ddinbych yn dangos fod y Cytundeb Cyfreithiol yn helpu i gyflawni nifer o'r saith o nodau lles trwy'r Cynllun Rheoli AHNE presennol/yn y dyfodol mewn ffordd gadarnhaol.

Nid yw'n ofynnol gwneud asesiad lles arall ynghylch y diwygiadau arfaethedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Ymgynghori a chyngor wedi'i gymryd trwy'r Gweithgor Swyddogion AHNE ynghyd â Thîm Cyfreithiol Sir Ddinbych. Rhannwyd y diwygiadau drafft â chynrychiolwyr cyfreithiol perthnasol y tri Chyngor; caiff unrhyw sylwadau a dderbynnir o hyn ymlaen eu rhannu â'r Cyd-bwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'r Cytundeb Cyfreithiol arfaethedig yn gyson gyda sut mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael ei redeg yn llwyddiannus dros y 5 mlynedd cyntaf ac felly yn cael ei gefnogi o safbwynt ariannol."

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n bwysig adolygu/diweddaru/moderneiddio'r Cytundeb Cyfreithiol er mwyn iddo fod yn effeithiol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy Gyd-bwyllgor.'